**Y Gwir Anrh/Rt Hon Eluned Morgan AS/MS**
**Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: PO/FM/0001/26

Mark Isherwood AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

5 Ionawr 2026

Annwyl Mark,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 3 Rhagfyr yn tynnu fy sylw at yr ohebiaeth a gawsoch gan yr FDA mewn perthynas â'r diwygiadau a wneuthum i God y Gweinidogion. Roedd yr FDA o'r farn bod cwestiwn i Lywodraeth Cymru ei ateb ynghylch pam nad oedd y rôl newydd ar gyfer Cynghorydd Annibynnol yn cynnwys y gallu i gynnal ymchwiliadau ar ei ysgogiad eu hun, fel sy'n wir yn achos y trefniadau sydd ar waith gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban.

Soniais am y mater hwn yn y llythyr a anfonais atoch ar 12 Medi ar yr adeg y cyhoeddwyd fy Nghod diwygiedig gyntaf, pan ddywedais fy mod wedi ystyried y sefyllfa mewn gweinyddiaethau eraill drwy gydol fy adolygiad, a bod llawer o'r newidiadau yr wyf wedi'u gwneud yn cyfateb i'r newidiadau mewn gweinyddiaethau eraill. Ond dywedais hefyd fy mod wedi penderfynu peidio ag ymgorffori rhai agweddau ar y codau eraill, neu o leiaf beidio â mynd mor bell ag y maent hwythau wedi'i wneud.

Pan ddeuthum i'r casgliad ei bod yn bryd i ni yng Nghymru gael Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Gweinidogol, ystyriais yn ofalus a fyddai'n briodol rhoi pwerau iddo i gynnal ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun ond, fel y mae'r FDA wedi nodi, penderfynais beidio â gwneud hynny.

Er ei bod yn wir bod cwestiynau ynglŷn â chydymffurfiaeth weinidogol â'r Cod wedi codi o bryd i'w gilydd dros y blynyddoedd, nid ydym, yn fy marn i, wedi gweld achosion o natur nac o ddifrifoldeb tebyg i'r hyn a welwyd mewn llywodraethau eraill. Mae'r achosion hynny a'r modd y cawsant eu rheoli yn debygol o fod wedi cyfrannu at y penderfyniad i gyflwyno ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun yno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd yn ymddangos i mi hefyd y byddai cyflwyno'r trefniant hwn yn gwneud newid sylfaenol i'r berthynas rhwng y Prif Weinidog a'i Gynghorydd Annibynnol.  Rwy'n siŵr y bydd cael ffynhonnell o gyngor gwrthrychol ac allanol ar faterion y Cod o fudd sylweddol yn y dyfodol.  Ond mae'n bwysig, rwy'n credu, bod y berthynas yn un o ddarparu cyngor, yn hytrach nag o gymryd cyfrifoldeb am oruchwylio cydymffurfiaeth. Dyna gyfrifoldeb y Prif Weinidog, sydd wedyn, yn ei dro, yn atebol i'r Senedd.  Mae gan gyflwyno ymchwiliadau ar ei ysgogiad ei hun y potensial i newid y berthynas o gynghorydd diduedd i reoleiddiwr.

Mae digon o gyfleoedd rheolaidd i'r Senedd graffu ar y ffordd y mae'r Prif Weinidog yn cymhwyso darpariaethau Cod y Gweinidogion i'w Gabinet ac iddo ei hun.  Pe bai'r Senedd yn teimlo bod angen ymchwiliad o dan y Cod, a bod y Prif Weinidog yn gyndyn i gomisiynu un, rwyf yn siŵr na fyddai'r Senedd yn oedi cyn dwyn y Prif Weinidog i gyfrif am ei benderfyniad, fel y maent wedi gwneud yn y gorffennol.

Wrth i rôl y Cynghorydd Annibynnol ymwreiddio a dod yn fwy datblygedig yng Nghymru, rwyf yn cydnabod y gallai'r mater hwn gael ei ailystyried yn y dyfodol.  Ond ar y cam hwn o'r gwaith datblygu, nid wyf yn credu bod yr hyn y mae'r FDA yn fy annog i'w wneud yn briodol. Rwyf yn gobeithio bod yr esboniad hwn o'm rhesymau dros ddod i'r casgliad hwn yn ddefnyddiol i chi ac i'ch Pwyllgor.

Yn gywir,



**Eluned Morgan**